# CYNGOR CYMUNED PENTIR

**COFNODION Y CYFARFOD BLYNYDDOL A GYNHALIWYD yn Rhithiol ar yr 11/05/2022**

**Presennol:**
Y Cyng. M Lynch, L. A. James, B Jones, M Baines, a J Pierce
Elwyn Jones (Clerc )

**Ymddiheuriadau**:
Y Cyng, J. Lewis, Eleri Jones, D Jones-Morris, a A Joyce

Ar ddechrau tymor newydd y Cyngor a chan nad oedd Cadeirydd croesawyd pawb gan y Clerc cyn iddo ofyn caniatad i newid ychydig ar yr Agenda ag ethol Cadeirydd
Cynnigwyd Cyng M Lynch yr Is-gadeirydd gan y Cyng B. Jones a cafodd ei eilio gan y Cyng L A James

Ni ddaeth enw arall ymlaen a felly etholwyd Cyng M Lynch yn gadeirydd am y flwyddyn 2022-23
Diolchodd a derbyniodd y swydd cyn symud ymlaen i gychwyn y cyfarfod a thraddodi Gweddi.

**1. Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2021 a materion yn codi.**
Derbyn Cofnodion
Ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan Cyng M Baines derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**2. Cyfrifon ac Adroddiad Ariannol 2021 - 22**
**Derbyniwyd cyfrifon am y flwyddyn 2021 - 22 ynghyd a'r adroddiad ariannol, fydd yn eu tro yn cael eu anfon at yr Archwilwyr Mewnnol ag Allannol a chymedwywyd i'r Cadeirydd eu arwyddo**
**'Roedd y dogfennau wedi eu anfon yn electronig at bob aelod**

**3. Adroddiad Blynyddol Cyngor Cymuned Pentir**
Cyfeiriodd y Clerc bod disgwyl bellach i gynghorau Cymuned gyflwyno adroddiad blynyddol yn amlinnellu eu gwaith am y flwyddyn a fu a'u bwriadau am y flwyddyn i ddod.
'Roedd yr adroddiad wedi eu rhannu'n electronig eisioes a'r bwriad yw ei rhannu ar wefan y Cyngor

**4. Ethol Swyddogion**
Nodwyd eisioes i'r Cyng M Lynch gael ei ethol yn Gadeirydd.
Ar gychwyn blwyddyn newydd tymor newydd hefo 3 sedd wag a 4 ymddiheuriad cytunwyd i ohirio penodi gweddill swyddogion tan gyfarfod Cyngor Llawn Mis Mehefin pryd y gobeithir y bydd mwy yn bresennol a rhai wedi eu cyfethol

<u>4.3 – Aelodaeth o'r Is-Bwyllgorau</u>

Gweler uchod i ethol yn Mis Mehefin

Cytunwyd i sefydlu Is-Bwyllgor i sefydlu Cynllun busnes dros gyfnod o rhyw dair blynedd gan roi hwnnw ar agenda Mis Mehefin

Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben am 7.30

***********************************